Cod Llywodraethu

Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

Tudalen Rheoli Dogfen	
Teitl y ddogfen:	Y Cod Llywodraethu
Math o ddogfen	Polisi
Perchennog	Pennaeth y Gwasanaeth Perfformiad, Gwella a Phartneriaethau (PIPS)
Proses Gymeradwyo / corff cymeradwyo	Uwch Dîm Arweinyddiaeth, Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, Bwrdd Gweithredol (Mân newidiadau gan Bennaeth y Gwasanaeth PIPS o fewn y tymor 5 mlynedd)
Dyddiad cymeradwyo gwreiddiol	12 Medi 2017
Trefniadau adolygu	5 mlynedd
Dyddiad yr adolygiad nesaf:	31 Mawrth 2027

Rheoli Fersiynau			
Fersiwn	**Dyddiad**	**Disgrifiad Byr o'r Newidiadau**	**Sylwadau**
0.1	1 Mawrth 2019	Mân Newidiadau i adlewyrchu: Cynllun Llesiant y Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus (Egwyddor C) Trefniadau Dilyniant Gwasanaeth (Egwyddor F) Diweddariadau i bolisiau	Cymeradwywyd gan y Pennaeth Cyllid ar 25 Chwefror 2019
0.2	8 Mawrth 2022	Adolygiad 5 mlynedd Angen mân newidiadau yn unig i adlewyrchu diweddariadau i strategaethau a pholisïau	Cytunwyd gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 24 Chwefror 2022 Cytunwyd gan y Bwrdd Gweithredol 8 Mawrth 2022

CYNNWYS

ADRAN 1: PWYSIGRWYDD LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL DA 4

ADRAN 2: SAIL Y COD HWN 5

ADRAN 3: YMRWYMIADAU I EGWYDDORION LLYWODRAETHU 7

Egwyddor A: Ymddwyn gydag uniondeb, gan arddangos ymrwymiad cryf i werthoedd moesegol, a pharchu rheol y gyfraith .7

Egwyddor B: Sicrhau bod yn agored ac ymgysylltiad cynhwysfawr â rhanddeiliaid 11

Egwyddor C: Diffinio deilliannau o ran buddiannau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol cynaliadwy 15

Egwyddor D: Penderfynu ar yr ymyriadau angenrheidiol i wneud y gorau o gyflawni'r deilliannau a fwriedir 18

Egwyddor E: Datblygu capasiti'r Cyngor, gan gynnwys gallu ei arweinyddiaeth a'r unigolion oddi mewn iddo 22

Egwyddor F: Rheoli risgiau a pherfformiad drwy reolaeth fewnol gadarn a rheolaeth gref dros arian cyhoeddus 26

Egwyddor G: Gweithredu arferion da o ran tryloywder, adrodd, ac archwilio i sicrhau atebolrwydd effeithiol 32

ADRAN 4: SUT MAE LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL YN CAEL EI ADOLYGU 36

ATODIAD A: SAITH EGWYDDOR BYWYD CYHOEDDUS (EGWYDDORION NOLAN) 37

ADRAN 1: PWYSIGRWYDD LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL DA

1.1 Mae Llywodraethu Corfforaethol yn cyfeirio at y prosesau sy'n gyfrifol am gyfeirio, rheoli, arwain a dwyn i gyfrif sefydliadau fel y Cyngor. Mae hefyd yn ymwneud â diwylliant a gwerthoedd - y modd y mae cynghorwyr (aelodau) a gweithwyr yn meddwl ac yn gweithredu. I grynhoi, os yw rheoli yn ymwneud â rhedeg y Cyngor, mae llywodraethu corfforaethol yn ymwneud â gweld ei fod yn cael ei redeg yn iawn.

1.2 Mae'r Cyngor yn sefydliad cymhleth sy'n effeithio pawb sy'n byw ac yn gweithio yn Wrecsam ynghyd â'r busnesau a'r sefydliadau a leolir yma. Mae felly'n hanfodol bod gennym hyder yn ein llywodraethu corfforaethol, felly mae'n rhaid i'r Cyngor sicrhau:

- fel corff democrataidd, ein bod yn ymgysylltu â'n dinasyddion a'n rhanddeiliaid yn effeithiol a'n bod yn atebol iddynt;
- ein bod yn cynnal ein busnes yn unol â'r gyfraith a safonau priodol;
- ein bod yn mynd ati'n briodol i roi cyfrif am arian cyhoeddus a'i fod yn cael ei ddefnyddio'n economaidd, yn effeithlon ac yn effeithiol;
- bod rheolaethau'n gymesur â'r risg fel nad ydynt yn amharu ar berfformiad;
- ein bod yn mynd ati'n barhaus i wella'r modd yr ydym yn gweithredu, yn nhermau effeithiolrwydd, ansawdd, argaeledd gwasanaethau, tegwch, cynaliadwyedd ac arloesedd; ac
- ein bod yn cyflawni ein pwrpas ac yn cwrdd â'n blaenoriaethau fel y nodir Nghynllun y Cyngor.

1.3 **Felly mae'r Cyngor yn ymroddedig i lywodraethu corfforaethol** – i wneud y pethau cywir yn y ffordd gywir i'r bobl gywir mewn modd sy'n amserol, yn gynhwysol, yn agored, yn onest ac yn atebol. Mae'r Cod hwn yn nodi'r ymrwymiad hwnnw a sut y darparwn dystiolaeth o hynny.

1.4. **Mae'r ymrwymiad hwn yn cynnwys gwella llywodraethu** barhaol ar draws y Cyngor cyfan, drwy broses o werthuso ac adolygu. Ceir manylion pellach am hyn yn Adran 4.

ADRAN 2: SAIL Y COD HWN

2.1 Mae'r Cod hwn wedi'i seilio ar 'Fframwaith Darparu Llywodraethu Da mewn Llywodraeth Leol 2016', a gyhoeddwyd ar y cyd gan y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) a Chymdeithas Prif Weithredwyr Awdurdodau Lleol (SOLACE). Caiff hwn ei ddarparu i bob un o awdurdodau lleol y DU sydd â'u canolbwynt ar **Saith Egwyddor Craidd** y Fframwaith Rhyngwladol: Llywodraethu Da yn y Sector Cyhoeddus (CIPFA/ Ffederasiwn Rhyngwladol y Cyfrifwyr, 2014), a luniwyd i ategu trefniadau llywodraethu pob corff sector cyhoeddus.

2.2 Yr egwyddorion craidd yw:

A: Ymddwyn gydag uniondeb, dangos ymrwymiad cadarn i werthoedd moesegol, a pharchu rheol y gyfraith.

B: Sicrhau bod yn agored ac ymgysylltiad cynhwysfawr â budd-ddeiliad.

C: Diffinio canlyniadau o ran buddion economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol cynaliadwy.

D: Penderfynu ar yr ymyriadau angenrheidiol i wneud y gorau o gyflawni'r deilliannau a fwriedir.

E: Datblygu capasiti'r Cyngor, gan gynnwys gallu ei arweinyddiaeth a'r unigolion oddi mewn iddo.

F: Rheoli risgiau a pherfformiad drwy reolaeth fewnol gadarn a rheolaeth gref dros arian cyhoeddus.

G: Gweithredu arferion da o ran tryloywder, adrodd ac archwilio er mwyn darparu atebolrwydd effeithiol.

2.3 Bod Egwyddorion Craidd A a B yn rhan sylfaenol o weithredu'r egwyddorion eraill. Mae llywodraethu da yn ddynamig ac mae angen cwrdd â phob un o'r egwyddorion.

2.4 Gan fod Llywodraethu Corfforaethol effeithiol yn dibynnu ar y modd y mae cynghorwyr (aelodau) a gweithwyr yn meddwl ac yn gweithredu, mae'r Cod hefyd yn cydnabod pwysigrwydd saith 'Egwyddor Bywyd Cyhoeddus' ('Egwyddorion Nolan') sy'n sail i'r safonau moesegol sy'n ddisgwyliedig o ddeiliaid swyddi cyhoeddus – Atodiad A. Mae'r rhain yn cefnogi saith Egwyddor Graidd y Cod hwn sydd yn eu tro'n ategu ymagwedd y Cyngor tuag at gynllunio gwasanaethau teg, effeithiol a chynaliadwy ynghyd â'i gyfrifoldebau am ddatblygu cynaliadwy fel y nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, a Deddf Yr Amgylchedd (Cymru) 2016.

ADRAN 3: YMRWYMIADAU I EGWYDDORION LLYWODRAETHU

Egwyddor A:

Ymddwyn gydag uniondeb, gan arddangos ymrwymiad cryf i werthoedd moesegol, a pharchu rheol y gyfraith

Mae'r Cyngor yn atebol nid yn unig am faint maent yn ei wario, ond hefyd am sut yr ydym yn defnyddio'r adnoddau sydd o dan ein stiwardiaeth. Mae hyn yn cynnwys atebolrwydd am allbynnau cadarnhaol a negyddol, ac am y deilliannau yr ydym wedi eu cyflawni. Yn ogystal, mae gennym gyfrifoldeb cyffredinol i wasanaethu budd y cyhoedd wrth gadw at y gofynion deddfwriaeth a pholisïau llywodraeth. Mae'n hanfodol y gallwn, yn gyffredinol, arddangos priodoldeb ein gweithredoedd ar draws yr holl weithgareddau a bod mecanweithiau ar waith i annog a gorfodi cydymffurfiaeth â gwerthoedd moesegol ac i barchu rheol y gyfraith.

I gefnogi Egwyddor A, mae'r Cyngor yn ymrwymo i:

Ymddwyn gydag uniondeb

A1. Sicrhau bod aelodau a swyddogion yn ymddwyn gydag uniondeb ac yn arwain diwylliant lle bod gweithredu er budd y cyhoedd yn cael ei arddangos yn weladwy ac yn gyson sydd o ganlyniad yn diogelu enw da'r Cyngor.

A2. Sicrhau bod aelodau'n arwain wrth sefydlu egwyddorion neu weithredu neu weithredoedd safonol ar gyfer y Cyngor a'i staff a'u bod yn cael eu cyfathrebu a'u deall. Dylai'r rhain adeiladu ar y Saith Egwyddor ar gyfer Bywyd Cyhoeddus ('Egwyddorion Nolan' – Gweler Atodiad A).

A3. Arwain drwy esiampl a defnyddio'r egwyddorion gweithredol neu werthoedd safonol hyn fel fframwaith ar gyfer penderfynu a chamau gweithredu eraill.

A4. Arddangos, cyfathrebu a gwreiddio'r egwyddorion gweithredu neu werthoedd safonol drwy bolisïau a phrosesau priodol sy'n cael eu hadolygu'n rheolaidd i sicrhau eu bod yn gweithredu'n effeithiol.

Beth sydd yn ei le i gefnogi hyn

- Gwerthoedd Cytunedig
- Strategaeth Datblygu'r Sefydliad a'r Gweithlu
- Codau Ymddygiad ar gyfer aelodau a gweithwyr
- Cofrestrau diddordebau, rhoddion a lletygarwch
- Hyfforddiant ymsefydlu ar gyfer aelodau a gweithwyr
- Llawlyfr Gweithwyr
- Cyfansoddiad
- Rolau Swyddog Adran Statudol 151 a Swyddog monitro
- Sesiynau codi ymwybyddiaeth rheolaidd i weithwyr ynghylch llywodraethu
- Protocol hunanreoli aelodau (Cyfansoddiad)
- Cynllun cydnabyddiaeth ariannol yr aelodau
- Rheolau gweithdrefn ariannol
- Rheolau gweithdrefn contractau
- Cod Ymarfer Cynllunio
- Rheolau Sefydlog
- Pwyllgorau Safonau ac Archwilio
- Strategaeth a Gweithdrefnau Gwrth-dwyll
- Strategaeth Atal Gwyngalchu Arian
- Gweithdrefn Chwythu'r Chwiban
- Gweithdrefn Gwynion
- Siarter Archwilio Mewnol
- Cyfrifoldebau Diogelu
- Polisi Iechyd a Diogelwch
- Cynllun Cydraddoldeb Strategol a Chynllun Cydlyniant Cymunedol

Arddangos ymrwymiad cryf i werthoedd moesegol

A5. Ceisio sefydlu, monitro a chynnal safonau a pherfformiad moesegol y Cyngor.

A6. Ategu ymddygiad personol gyda gwerthoedd moesegol a sicrhau eu bod yn treiddio i holl agweddau'r Cyngor o ran diwylliant a dulliau gweithredu.

A7. Datblygu a chynnal polisïau a gweithdrefnau cadarn sy'n rhoi pwyslais ar werthoedd moesegol cytunedig.

A8. Sicrhau bod gofyn i ddarparwyr gwasanaeth allanol ar ran y Cyngor weithredu gydag uniondeb ac mewn cydymffurfiaeth â'r safonau moesegol uchel a ddisgwylir gan y Cyngor.

Beth sydd yn ei le i gefnogi hyn

- Gwerthoedd Cytunedig
- Strategaeth Datblygu'r Sefydliad a'r Gweithlu
- Codau Ymddygiad ar gyfer aelodau a gweithwyr
- Cofrestrau diddordebau, rhoddion a lletygarwch
- Rheolau gweithdrefn ariannol
- Rheolau gweithdrefn contractau
- Cod Ymarfer Cynllunio
- Hyfforddiant ymsefydlu a modiwlau hyfforddiant e-ddysgu gorfodol ar gyfer aelodau a gweithwyr
- Mae'r PRCD blynyddol yn cynnwys cymwyseddau ymddygiadol
- Llawlyfr Gweithwyr
- Sesiynau codi ymwybyddiaeth rheolaidd i weithwyr ynghylch llywodraethu
- Egwyddorion Cynllunio Datblygu Cynaliadwy
- Strategaeth Comisiynu, Caffael a Rheoli Contractau
- Trefniadau partneriaeth a gweithio ar y cyd

Parchu rheol y gyfraith

A9. Sicrhau bod aelodau a staff yn arddangos ymrwymiad cryf i reol y gyfraith yn ogystal â chadw at gyfreithiau a rheoliadau perthnasol.

A10. Creu'r amodau i sicrhau bod y swyddogion statudol, deiliaid swyddi allweddol ac aelodau'n gallu cyflawni eu cyfrifoldebau'n unol â gofynion deddfwriaethol a rheoliadol.

A11. Ymdrechu i wneud y defnydd gorau o'r pwerau llawn sydd ar gael er bydd dinasyddion, cymunedau a rhanddeiliaid eraill.

A12. Mynd ati i ddelio ag achosion o dorri darpariaethau cyfreithiol a rheoliadol mewn modd effeithiol.

A13. Sicrhau bod achosion o lygredigaeth a chamddefnyddio pŵer yn cael eu trin yn effeithiol.

Beth sydd yn ei le i gefnogi hyn

- Cydymffurfiad â Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021
- Cyfrifoldebau Swyddog Statudol allweddol a nodir yng nghyfansoddiad y Cyngor
- Cydymffurfio â Datganiad y CIPFA ar 'Role of the Chief Financial Officer in Local Government'
- Protocol ar gysylltiadau Aelodau/ Swyddogion (Cyfansoddiad)
- Swydd-ddisgrifiadau
- Sesiynau codi ymwybyddiaeth rheolaidd i weithwyr ynghylch llywodraethu
- Pwyllgor Safonau
- Pwyllgor Archwilio
- Polisi a Gweithdrefnau Gwrth-dwyll
- Strategaeth Atal Gwyngalchu Arian
- Gweithdrefn Chwythu'r Chwiban
- Gweithdrefn Gwynion
- Canllawiau rheoli Diogelu Data Cyffredinol.
- Safonau'r Gymraeg

Egwyddor B:

Sicrhau bod yn agored ac ymgysylltiad cynhwysfawr â rhanddeiliaid

Mae Llywodraeth Leol yn cael ei rhedeg er lles y cyhoedd, felly dylai sefydliadau sicrhau eu bod yn agored yn eu gweithgareddau. Dylid defnyddio cyfryngau cyfathrebu ac ymgynghori clir, ac a ymddiriedir ynddynt, i ymgysylltu'n effeithiol â phob grŵp o randdeiliaid, megis dinasyddion unigol a defnyddwyr gwasanaeth, yn ogystal â rhanddeiliaid sefydliadol.

I gefnogi Egwyddor B, mae'r Cyngor yn ymrwymo i:

Bod yn agored

B1. Sicrhau diwylliant agored drwy arddangos, dogfennu a chyfathrebu ein hymrwymiad i fod yn agored.

B2. Gwneud penderfyniadau sy'n agored ynghylch camau gweithredu, cynlluniau, y defnydd o adnoddau, rhagamcanion, allbynnau a chanlyniadau. Ein rhagdybiaeth o blaid bod yn agored. Os nad felly y mae, dylid darparu cyfiawnhad ar gyfer yr ymresymiad dros gadw penderfyniad yn gyfrinachol.

B3. Darparu ymresymiad a thystiolaeth ar gyfer penderfyniadau mewn cofnodion cyhoeddus ac o fewn eglurhad i randdeiliaid a bod yn bendant ynghylch y meini prawf, y sail resymegol a'r ystyriaethau a ddefnyddir. Yn y man, sicrhau bod effaith a chanlyniadau'r penderfyniadau hynny'n glir.

B4. Defnyddio ymgynghori ac ymgysylltu ffurfiol ac anffurfiol i bennu'r ymyriadau/camau gweithredu mwyaf priodol ac effeithiol.

Beth sydd yn ei le i gefnogi hyn

- Cyfansoddiad (Erthygl 12)
- Strategaeth Comisiynu, Caffael a Rheoli Contractau
- Rheolau gweithdrefn contractau
- Gweithdrefn Chwythu'r Chwiban
- Cynllun y Cyngor
- Datganiad Llesiant
- Fframwaith Rheoli Perfformiad
- Adroddiadau archwilio ac arolygu allanol
- Cynllun y Cyngor o Wybodaeth Gyhoeddedig
- Gwybodaeth am Dreth y Cyngor Ar-lein
- Blaenraglenni Gwaith ar gyfer pwyllgorau a'r Cyngor
- Amserlenni adrodd, cyhoeddi a dosbarthu
- Cynllun Dirprwyo Pwerau
- Cyfarfodydd sy'n agored i'r cyhoedd onid ydynt wedi'u heithrio dan Ran 4 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd)
- Cofnodion
- Gweddarlledu cyfarfodydd drwy ryngrwyd Cyngor Wrecsam
- 'Eich Llais Wrecsam' (Adnodd ymgynghori ar-lein Cyngor Wrecsam a'i bartneriaid)
- Codau Ymddygiad ar gyfer aelodau a gweithwyr
- Strategaeth gyfathrebu allanol
- Ceisiadau rhyddid gwybodaeth a cheisiadau gan unigolion i weld gwybodaeth amdanynt

Ymgysylltu â rhanddeiliaid sefydliadol mewn modd cynhwysfawr

B5. Mynd ati'n effeithiol i ymgysylltu â rhanddeiliaid sefydliadol i sicrhau bod y pwrpas, yr amcanion a'r canlyniadau bwriadedig ar gyfer bob cysylltiad â rhanddeiliaid yn glir fel bod canlyniadau'n cael eu cyflawni mewn modd llwyddiannus a chynaliadwy.

B6. Datblygu partneriaethau ffurfiol ac anffurfiol i ganiatáu defnyddio adnoddau'n fwy effeithlon a chyflawni canlyniadau'n fwy effeithiol.

B7. Sicrhau bod partneriaethau'n seiliedig ar ymddiriedaeth, ymrwymiad a rennir i newid ynghyd â diwylliant sy'n hybu ac yn derbyn her ymhlith partneriaid a bod gwerth ychwanegol gweithio mewn partneriaeth yn elfen bendant.

Beth sydd yn ei le i gefnogi hyn

- Strategaeth Cynnwys
- Ymgynghoriadau presennol
- Gweithdrefn Gwynion
- Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Wrecsam a'r Cynllun Lles
- Trefniadau gweithio mewn partneriaeth ac ar y cyd

Ymgysylltu â rhanddeiliaid yn effeithiol, gan gynnwys dinasyddion unigol a defnyddwyr gwasanaeth

B8. Polisi clir o ran y math o faterion y bydd y Cyngor yn ymgynghori'n ystyrlon yn eu cylch neu'n cynnwys dinasyddion unigol, defnyddwyr gwasanaeth a rhanddeiliaid eraill i sicrhau bod darpariaeth gwasanaeth yn cyfrannu tuag at gyflawni'r canlyniadau bwriadedig.

B9. Sicrhau bod dulliau cyfathrebu'n effeithiol a bod aelodau a swyddogion yn glir o ran eu rolau mewn perthynas ag ymgysylltu cymunedol.

B10. Annog, casglu a gwerthuso barnau a phrofiadau cymunedau, dinasyddion, defnyddwyr gwasanaeth a sefydliadau o wahanol gefndiroedd, gan gynnwys cyfeiriad at anghenion i'r dyfodol.

B11. Gweithredu mecanweithiau effeithiol ar gyfer rhoi adborth er mwyn arddangos sut y cafodd eu barnau eu hystyried.B12. Cydbwyso adborth gan grwpiau rhanddeiliaid mwy gweithgar gyda grwpiau eraill o randdeiliaid i sicrhau eu cynwysoldeb.

B13. Ystyried buddiannau cenedlaethau o drethdalwyr a defnyddwyr gwasanaeth i'r dyfodol.

Beth sydd yn ei le i gefnogi hyn

- Strategaeth Cynnwys
- Safonau Mynediad Cwsmeriaid
- Ymgysylltiad Gweithwyr ac Undebau Llafur, strategaeth gyfathrebu fewnol
- Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Wrecsam a'r Cynllun Lles
- Cynllun Ariannol Tymor Canolig (yr ymgynghorir arno'n flynyddol)
- Ymarferion ymgynghori ar Flaenoriaethau Cynllun y Cyngor (gan gynnwys ystyriaethau'r gyllideb)
- Egwyddorion Cynllunio Datblygiad Cynaliadwy
- Gweithdrefn Gwynion (a chanmoliaeth)
- Safonau'r Gymraeg

Egwyddor C:

Diffinio deilliannau o ran buddiannau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol cynaliadwy

Mae natur ac effaith hirdymor llawer o gyfrifoldebau Llywodraeth Leol yn golygu y dylai ddiffinio a chynllunio deilliannau ac y dylai'r rhain fod yn gynaliadwy. Dylai penderfyniadau hybu pwrpas yr awdurdod, cyfrannu at y deilliannau a'r buddion a fwriadwyd, ac aros o fewn y terfynau awdurdod ac adnoddau. Mae mewnbwn gan bob grŵp o randdeiliaid, gan gynnwys dinasyddion, defnyddwyr gwasanaeth a rhanddeiliaid sefydliadol, yn hanfodol i lwyddiant y broses hon ac i gydbwyso galwadau sy'n cystadlu â'i gilydd wrth bennu blaenoriaethau ar gyfer yr adnoddau cyfyngedig sydd ar gael.

I gefnogi Egwyddor C, mae'r Cyngor yn ymrwymo i:

Diffinio canlyniadau

C1. Cael gweledigaeth glir sy'n ddatganiad ffurfiol cytunedig o bwrpas a chanlyniadau bwriadedig y Cyngor sy'n cynnwys dangosyddion perfformiad priodol sy'n darparu'r sail ar gyfer strategaeth gyffredinol y Cyngor, ynghyd â chynllunio a phenderfyniadau eraill.

C2. Pennu'r effaith fwriadedig ar, neu newidiadau ar gyfer rhanddeiliaid gan gynnwys dinasyddion a defnyddwyr gwasanaeth. Gall hyn fod ar unwaith neu dros gyfnod o flwyddyn neu gyfnod hwy.

C3. Cyflawni canlyniadau diffiniedig ar sail gynaliadwy o fewn yr adnoddau a fydd ar gael.

C4. Canfod a rheoli risgiau o ran cyflawni canlyniadau.

C5. Rheoli disgwyliadau defnyddwyr gwasanaeth yn effeithiol o ran pennu blaenoriaethau a gwneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael.

Beth sydd yn ei le i gefnogi hyn

- Egwyddorion Cynllunio Datblygu Cynaliadwy (ffyrdd o weithio)
- Asesiad a datganiad Lles
- Strategaeth Cynnwys
- Cynllun Ariannol Tymor Canolig
- Fframwaith Rheoli Perfformiad
- Adroddiadau perfformiad hanner blwyddyn i'r Bwrdd Gweithredol
- Polisi Rheoli Risg

Buddion economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol cynaliadwy

C6. Ystyried a chydbwyso effaith economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol polisïau, cynlluniau a phenderfyniadau ar y cyd wrth wneud penderfyniadau am ddarpariaeth gwasanaeth.

C7. Cymryd golwg mwy hirdymor o ran penderfynu, gan ystyried risg a gweithredu mewn modd tryloyw lle bo gwrthdaro posibl rhwng canlyniadau bwriadedig y Cyngor a ffactorau tymor byr fel y cylch gwleidyddol neu gyfyngiadau ariannol.

C8. Pennu budd ehangach y cyhoedd sy'n gysylltiedig â chydbwyso buddion sy'n gwrthdaro rhwng cyflawni'r amryw fuddion economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol, drwy ymgynghori lle bynnag y bo modd, er mwyn sicrhau cyfaddawdau priodol.

C9. Sicrhau mynediad teg i wasanaethau.

Beth sydd yn ei le i gefnogi hyn

- Datganiad Lles Cynllun y Cyngor
- Cynllun Ariannol Tymor Canolig
- Ymarferion ymgynghori ar y gyllideb
- Polisi Rheoli Risg
- Strategaeth Comisiynu, Caffael a Rheoli Contractau
- Gweithdai aelodau
- Llawlyfr Rheoli Prosiect
- Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Wrecsam a'r Cynllun Lles
- Cynllun Cydraddoldeb Strategol a chynllun cydlyniant blynyddol
- Asesiadau o Effaith ar Gydraddoldeb drwy gydol y prosesau penderfynu
- Strategaeth TGCh a Digidol

Egwyddor D:

Penderfynu ar yr ymyriadau angenrheidiol i wneud y gorau o gyflawni'r deilliannau a fwriedir

Mae Llywodraeth Leol yn cyflawni ei ddeilliannau bwriadedig drwy ddarparu cymysgedd o ymyriadau cyfreithiol, rheoliadol ac ymarferol (camau gweithredu). Mae penderfynu ar y cymysgedd gywir o ran y camau gweithredu hyn yn ddewis strategol hanfodol bwysig sydd rhaid i Lywodraeth Leol ei wneud i sicrhau y cyflawnir y deilliannau a fwriedir. Mae angen dulliau gwneud penderfyniadau cadarn er mwyn sicrhau y gellir cyflawni'r deilliannau diffiniedig mewn modd sy'n darparu'r cyfaddawd gorau rhwng y mathau gwahanol o fewnbynnau adnoddau wrth barhau i alluogi gweithrediadau effeithiol ac effeithlon. Mae angen adolygu'r penderfyniadau a wneir yn aml er mwyn sicrhau bod y canlyniadau gorau bosibl yn cael eu cyflawni.

I gefnogi Egwyddor D, mae'r Cyngor yn ymrwymo i:

Pennu'r ymyriadau angenrheidiol

D1. Sicrhau bod penderfynwyr yn derbyn dadansoddiad gwrthrychol a thrylwyr o amrywiaeth o opsiynau sy'n dangos sut y byddai canlyniadau bwriadedig yn cael eu cyflawni a chynnwys y risgiau sy'n gysylltiedig â'r opsiynau hynny. Felly sicrhau bod y gwerth gorau'n cael ei gyflawni sut bynnag y darperir gwasanaethau.

D2. Ystyried adborth gan ddinasyddion a defnyddwyr gwasanaeth wrth wneud penderfyniadau am welliannau i wasanaethau neu lle nad oes angen gwasanaethau mwyach er mwyn blaenoriaethu galwadau sy'n anghyson â'i gilydd o fewn yr adnoddau cyfyngedig sydd ar gael, gan gynnwys pobl, sgiliau, tir ac asedau a gan gofio effeithiau i'r dyfodol.

Beth sydd yn ei le i gefnogi hyn

- Cynllun y Cyngor
- Egwyddorion penderfynu (Cyfansoddiad)
- Gofynion adrodd ar gyfer y Cyngor Llawn a'r Bwrdd Gweithredol
- Llawlyfr Rheoli Prosiect
- Pwyllgorau a chefnogaeth craffu
- Polisi Rheoli Risg
- Strategaeth Cynnwys
- Cynllun Ariannol Tymor Canolig
- Strwythur Uwch Reoli
- Arolygiadau Archwilio Allanol
- Rhaglen Flynyddol o Archwilio Mewnol
- Proses Gwyno Cwsmeriaid

Ymyriadau cynllunio

D3. Sefydlu a gweithredu cylchoedd cynllunio a rheoli cadarn sy'n cwmpasu cynlluniau strategol a gweithredol, blaenoriaethau a thargedau.

D4. Ymgysylltu â rhanddeiliaid mewnol ac allanol wrth bennu sut y dylid cynllunio a chyflawni gwasanaethau a chamau gweithredu eraill.

D5. Ystyried a monitro'r risgiau sy'n wynebu pob partner wrth weithio ar y cyd gan gynnwys y risgiau a rennir.

D6. Sicrhau bod trefniadau'n hyblyg ac yn ystwyth fel y gellir addasu'r mecanweithiau ar gyfer cyflawni allbynnau yn ôl amgylchiadau newidiol.

D7. Sefydlu dangosyddion perfformiad lleol priodol (yn ogystal â dangosyddion perfformiad statudol neu genedlaethol eraill) fel rhan o'r broses gynllunio er mwyn canfod sut y dylid mesur perfformiad gwasanaethau a phrosiectau.

D8. Sicrhau bod capasiti'n bodoli i gynhyrchu'r wybodaeth a fynnir i adolygu ansawdd gwasanaethau'n rheolaidd.

D9. Paratoi cyllidebau'n unol ag amcanion sefydliadol, strategaethau a'r cynllun ariannol tymor canolig.

D10. Llywio gwaith cynllunio adnoddau tymor canolig a hirdymor drwy lunio amcanestyniadau realistig o ran gwariant refeniw a chyfalaf sy'n anelu at ddatblygu strategaeth ariannu gynaliadwy.

Beth sydd yn ei le i gefnogi hyn

- Cynllun y Cyngor
- Adrodd, cyhoeddi a dosbarthu amserlenni monitro perfformiad
- Strategaeth Cynnwys
- Cynllun Ariannol Tymor Canolig
- Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Wrecsam a'r Cynllun Lles
- Trefniadau gweithio mewn partneriaeth ac ar y cyd
- Adroddiadau perfformiad hanner blwyddyn i'r Bwrdd Gweithredol
- Rheolau Gweithdrefn Fframwaith Cyllidebau a Pholisïau
- Gweithdrefnau Monitro a Rheoli'r Gyllideb
- Rheolau gweithdrefn ariannol
- Strwythur Uwch Reoli
- Canllawiau Fframwaith Perfformiad Corfforaethol a phroses ansawdd data

Cyflawni'r canlyniadau bwriadedig yn y modd gorau bosibl

D11. Sicrhau bod y strategaeth ariannol tymor canolig yn integreiddio ac yn cydbwyso blaenoriaethau gwasanaethau, fforddiadwyedd a chyfyngiadau eraill o ran adnoddau.

D12. Sicrhau bod y broses gyllidebu yn hollgynhwysol, gan ystyried cost lawn gweithrediadau dros y tymor canolig a'r tymor hwy.

D13. Sicrhau bod y strategaeth ariannol tymor canolig yn gosod y cyd-destun ar gyfer penderfyniadau parhaus mewn perthynas â materion arwyddocaol o ran cyflenwi neu ymatebion i newidiadau yn yr amgylchedd allanol all godi yn ystod y cyfnod cyllidebu er mwyn cyflawni canlyniadau wrth wneud y gorau o'r defnydd o adnoddau.

Beth sydd yn ei le i gefnogi hyn

- Cynllun Ariannol Tymor Canolig
- Ymarferion ymgynghori ar ddatblygu Blaenoriaethau Cynllun y Cyngor (gan gynnwys ystyriaethau'r gyllideb)
- Asesiad risg cyllidebau

Egwyddor E:

Datblygu capasiti'r Cyngor, gan gynnwys gallu ei arweinyddiaeth a'r unigolion oddi mewn iddo

Mae angen strwythurau ac arweinyddiaeth briodol ar Lywodraeth Leol, yn ogystal â phobl gyda'r sgiliau, cymwysterau addas a'r meddylfryd iawn i weithredu'n effeithiol ac yn effeithlon ac i gyflawni deilliannau bwriadedig o fewn y cyfnodau penodedig. Rhaid i sefydliad llywodraeth leol sicrhau bod ganddo'r gallu i gyflawni ei fandad ei hun ac i wneud yn siŵr bod polisïau ar waith i warantu bod gan ei reolwyr y capasiti gweithredol ar gyfer y sefydliad cyfan.

Gan y bydd yr unigolion a'r amgylchedd y mae'r awdurdod yn gweithredu ynddo yn newid dros amser, bydd angen parhaus i ddatblygu ei gapasiti yn ogystal â sgiliau a phrofiad aelodau staff unigol. Atgyfnerthir arweinyddiaeth mewn Llywodraeth Leol gan gyfranogiad pobl â llawer o wahanol fathau o gefndiroedd, sy'n adlewyrchu strwythur ac amrywiaeth cymunedau.

I gefnogi Egwyddor E, mae'r Cyngor yn ymrwymo i:

Datblygu Capasiti

E1. Datblygu a chynnal cynllun effeithiol ar gyfer y gweithlu er mwyn dyrannu adnoddau mewn modd mwy strategol.

E2. Adolygu gweithrediadau, perfformiad a'r defnydd o asedau'n rheolaidd i sicrhau eu bod yn parhau i fod yn effeithiol.

E3. Gwella'r defnydd o adnoddau drwy ddefnyddio technegau mewn modd priodol, fel meincnodi ac opsiynau eraill, er mwyn pennu sut y mae adnoddau'r Cyngor yn cael eu dyrannu fel bod canlyniadau'n cael eu cyflawni mewn modd effeithiol ac effeithlon.

E4. Adnabod buddion partneriaethau a gweithio ar y cyd lle gellir cyflawni gwerth ychwanegol.

Beth sydd yn ei le i gefnogi hyn

- Pwyllgorau a chefnogaeth craffu
- Strwythur Uwch Reoli
- Adroddiadau archwilio ac arolygu allanol
- Trefniadau gweithio mewn partneriaeth ac ar y cyd
- Strategaeth Datblygu'r Sefydliad a'r Gweithlu
- Strategaeth Tir ac Adeiladau Gorfforaethol
- Rhaglen Flynyddol o Archwilio Mewnol
- Strategaeth TGCh a Digidol

Datblygu galluogrwydd yr arweinyddiaeth ac unigolion eraill

E5. Datblygu protocolau i sicrhau bod arweinyddion sydd wedi'u hethol a'u penodi yn negydu â'i gilydd ynghylch eu rolau perthnasol yn fuan yn y berthynas a bod dealltwriaeth a rennir o rolau ac amcanion yn cael ei chynnal.

E6. Cyhoeddi datganiad sy'n pennu'r mathau o benderfyniadau sy'n cael eu dirprwyo a'r rheiny sy'n cael eu cadw ar gyfer proses benderfynu'r corff llywodraethu ar y cyd.

E7. Sicrhau bod gan yr arweinydd a'r prif weithredwr rolau sydd wedi'u diffinio'n glir ac sy'n arbennig iddynt hwy o fewn strwythur, lle mae'r prif weithredwr yn arwain yr awdurdod wrth weithredu strategaeth a rheoli'r modd y cyflawnir gwasanaethau ac allbynnau eraill a osodir gan aelodau, a bod y naill a'r llall yn darparu rhwystrau a gwrthbwysau ar gyfer awdurdod y naill a'r llall.

E8. Datblygu galluoedd aelodau ac uwch reolwyr o ran cyflawni arweinyddiaeth effeithiol a rennir ac i alluogi'r Cyngor i ymateb yn llwyddiannus i alwadau newidiol o ran materion cyfreithiol a pholisïau yn ogystal â newidiadau a risgiau economaidd, gwleidyddol ac amgylcheddol drwy:

- sicrhau bod aelodau a staff yn cael mynediad i sesiynau ymsefydlu priodol sydd wedi'u haddasu ar gyfer eu rôl a bod gweithgareddau hyfforddiant a datblygu parhaus ar gael sy'n cyfateb i ofynion unigol a sefydliadol a'u bod yn cael eu hannog.
- sicrhau bod gan aelodau a swyddogion y sgiliau, y wybodaeth, yr adnoddau a'r cymorth priodol i gyflawni eu rolau a'u cyfrifoldebau a sicrhau eu bod yn gallu diweddaru eu gwybodaeth yn barhaus.
- sicrhau datblygiad personol, sefydliadol a ledled y system drwy rannu dysgu, gan gynnwys.
- gwersi a ddysgwyd yng ngolau gwendidau mewnol ac allanol o ran llywodraethu.

E9. Sicrhau bod strwythurau yn eu lle i annog cyfranogiad cyhoeddus.

E10. Cymryd camau i ystyried effeithiolrwydd yr arweinyddiaeth ei hun a sicrhau bod arweinwyr yn agored i adborth adeiladol drwy adolygiadau cymheiriaid ac arolygiadau.

E11. Dal staff yn atebol drwy adolygiadau rheolaidd o berfformiad sy'n ystyried anghenion o ran hyfforddiant neu ddatblygu.

E12. Sicrhau bod trefniadau yn eu lle i gynnal iechyd a llesiant y gweithlu ac i gefnogi unigolion i gynnal eu llesiant corfforol a meddyliol eu hunain.

Beth sydd yn ei le i gefnogi hyn

- Cyfansoddiad (yn enwedig Erthyglau 2 ac 11)
- Protocol ar gysylltiadau Aelodau/ Swyddogion (Cyfansoddiad)
- Cyfarfodydd rheolaidd rhwng y Tîm Arweinyddiaeth Strategol ac Aelodau Arweiniol
- Cynllun Dirprwyo Pwerau
- Rheolau gweithdrefn ariannol
- Rheolau gweithdrefn contractau
- Swyddogaeth Dysgu a Datblygu
- Hyfforddi
- Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd a'r Rhaglen Datblygu Aelodau
- Proses Adolygu a Datblygu Perfformiad
- Strategaeth Cynnwys
- Strategaeth Datblygu'r Sefydliad a'r Gweithlu
- Polisïau'r Gweithlu
- Cod Ymarfer gweithwyr
- Cyfathrebu Mewnol
- Polisi Iechyd a Diogelwch a chynllun gweithredu presennol (os yw'n berthnasol)
- Safon Iechyd Corfforaethol
- Cod ymddygiad aelodau
- Rhaglen ymsefydlu a hyfforddiant e-ddysgu gorfodol
- Adolygiadau Cymheiriaid
- Rhaglenni iechyd a lles aelodau a'r gweithlu
- Cymorth arwain ysgolion, sy'n cynnwys arwain ysgolion a datblygu llywodraethwyr

Egwyddor F:

Rheoli risgiau a pherfformiad drwy reolaeth fewnol gadarn a rheolaeth gref dros arian cyhoeddus

Mae angen i Lywodraeth Leol sicrhau bod y sefydliadau a strwythurau llywodraethu hynny y mae'n eu goruchwylio wedi sefydlu, ac yn gallu cynnal, system rheoli perfformiad effeithiol sy'n hwyluso darpariaeth effeithiol ac effeithlon o wasanaethau cynlluniedig. Mae rheoli risg a rheolaeth fewnol yn rhan bwysig ac annatod o'r system rheoli perfformiad ac yn hanfodol i gyflawni deilliannau. Dylid ystyried risg a rhoi sylw iddo fel rhan o bob gweithgaredd gwneud penderfyniad.

Mae system rheoli ariannol cadarn yn hanfodol ar gyfer gweithredu polisïau a chyflawni deilliannau arfaethedig, gan y bydd yn gorfodi disgyblaeth ariannol, dyrannu adnoddau mewn modd strategol, darpariaeth gwasanaeth effeithlon ac atebolrwydd.

Mae'n hanfodol hefyd bod diwylliant a strwythur ar gyfer craffu ar waith fel rhan allweddol o wneud penderfyniadau, llunio polisi ac adolygu atebol. Mae diwylliant gweithio positif sy'n derbyn, yn hyrwyddo ac yn annog her adeiladol yn hollbwysig i graffu llwyddiannus a darparu gwasanaethau llwyddiannus. Mae'n bwysig pwysleisio na fydd y diwylliant hwn yn digwydd yn awtomatig, rhaid wrth ymrwymiad cyhoeddus dro ar ôl tro gan y rhai mewn awdurdod.

I gefnogi Egwyddor F, mae'r Cyngor yn ymrwymo i:

Rheoli Risg

F1. Cydnabod bod rheoli risg yn rhan annatod o bob gweithgaredd a rhaid ystyried hyn ym mhob agwedd ar wneud penderfyniadau.

F2. Gweithredu trefniadau rheoli risg cadarn ac integredig a sicrhau eu bod yn gweithio'n effeithiol.

F3. Sicrhau bod cyfrifoldebau o ran rheoli risgiau unigol yn cael eu neilltuo'n glir.

Beth sydd yn ei le i gefnogi hyn

- Polisi Rheoli Risg
- Trefniadau Rheoli Risg, Cofrestrau Risg a Rheoli a chynnwys rheoli risg o fewn archwiliadau allanol a mewnol
- Adroddiadau perfformiad hanner blwyddyn i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio
- Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio
- Llawlyfr Rheoli Prosiect
- Trefniadau gweithio mewn partneriaeth ac ar y cyd
- Gofynion adrodd ar gyfer y Cyngor Llawn a'r Bwrdd Gweithredol
- Trefniadau Dilyniant Gwasanaeth a Chynllunio ar gyfer Argyfwng
- Byrddau Blaenoriaeth Cynllun y Cyngor yn cael trosolwg o'r risgiau sy'n berthnasol i'w meysydd bob chwarter

Rheoli Perfformiad

F4. Monitro'r gwaith o gyflenwi gwasanaethau'n effeithiol gan gynnwys cynllunio, manylebau, cyflawni ac adolygiadau annibynnol ar ôl eu gweithredu.

F5. Gwneud penderfyniadau'n seiliedig ar ddadansoddi a chyngor perthnasol a chlir gan amlygu'r goblygiadau a'r risgiau sy'n rhan annatod o sefyllfa a rhagolygon ariannol, cymdeithasol ac amgylcheddol y Cyngor.

F6. Sicrhau bod swyddogaeth graffu neu drosolwg effeithiol yn ei lle sy'n annog herio a dadlau adeiladol mewn perthynas â pholisïau cyn, yn ystod ac ar ôl gwneud penderfyniadau, gan wella perfformiad y Cyngor ac unrhyw sefydliad y mae'n gyfrifol amdano.

F7. Darparu adroddiadau rheolaidd i aelodau ac uwch reolwyr ar y cynnydd tuag at gyflawni canlyniadau.

F8. Sicrhau bod cysondeb rhwng cyfnodau pennu manylion (fel cyllidebau) ynghyd ag adrodd ar ôl eu gweithredu (e.e. datganiadau ariannol).

Beth sydd yn ei le i gefnogi hyn

- Cynllun y Cyngor
- Fframwaith Rheoli Perfformiad
- Cynlluniau Gwasanaeth ac arweiniad ar gyfer cynllunio gwasanaethau
- Strategaeth Comisiynu, Caffael a Rheoli Contractau
- Adroddiadau perfformio hanner blwyddyn i'r Bwrdd Gweithredol
- Blaenraglenni Gwaith
- Adrodd, cyhoeddi a dosbarthu amserlenni rheoli perfformiad
- Pwyllgorau a chefnogaeth craffu
- Arweiniad ar baratoi adroddiadau
- Sgrinio adroddiadau pwyllgorau a phrosesau cymeradwyo
- Y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd, y Swyddog Gwasanaethau Democrataidd a Datblygu Aelodau
- Rheolau gweithdrefn ariannol
- Rheolau Gweithdrefn Fframwaith Cyllidebau a Pholisïau
- Gweithdrefnau Monitro a Rheoli'r Gyllideb
- Prosesau pennu'r gyllideb
- Datganiad Cyfrifon Blynyddol

Rheolaeth Fewnol Gadarn

F9. Cysoni'r strategaeth rheoli risg a pholisïau ar reolaeth fewnol gyda chyflawni amcanion.

F10. Gwerthuso a monitro'r modd y mae risgiau'n cael eu rheoli a rheolaeth fewnol yn rheolaidd .F11. Sicrhau bod trefniadau gwrth-dwyll a gwrthlygredigaeth effeithiol yn eu lle.

F12. Sicrhau bod yr archwilydd mewnol yn darparu sicrwydd ychwanegol o ran digonolrwydd ac effeithiolrwydd cyffredinol y fframwaith llywodraethu, rheoli a rheolaeth risg.

F13. Sicrhau bod pwyllgor archwilio neu grŵp neu swyddogaeth gyfatebol sy'n annibynnol o'r bwrdd gweithredol ac sy'n atebol i'r corff llywodraethu:

- yn darparu ffynhonnell bellach o sicrwydd effeithiol o ran trefniadau ar gyfer rheoli risg a chynnal amgylchedd rheoli effeithiol.
- y dylid gwrando ar yr argymhellion a gweithredu arnynt.

Beth sydd yn ei le i gefnogi hyn

- Polisi Rheoli Risg
- Adroddiadau perfformiad risg hanner blwyddyn i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio
- Byrddau Blaenoriaeth Cynllun y Cyngor yn cael trosolwg o'r risgiau sy'n berthnasol i'w meysydd bob chwarter
- Datganiadau Sicrwydd Rheolaeth Fewnol Penaethiaid Adrannau
- Siarter Archwilio Mewnol (gan gynnwys y Cynllun Blynyddol)
- Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio (Cyfansoddiad)
- Arolygon effeithiolrwydd a hyfforddiant y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio
- Rheolau gweithdrefn ariannol
- Rheolau gweithdrefn contractau
- Polisi a Gweithdrefnau Gwrth-dwyll
- Strategaeth Atal Gwyngalchu Arian
- Datganiad Llywodraethu Blynyddol a'r Cynllun Gweithredu
- Adroddiad Blynyddol y Pennaeth Archwilio Mewnol
- Adroddiad Blynyddol Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i'r Cyngor
- Swyddogaeth Sicrwydd
- Cylch Gorchwyl y Grŵp Swyddogion Llywodraethu

Rheoli Data

F14. Sicrhau bod trefniadau effeithiol yn eu lle ar gyfer casglu, storio, defnyddio a rhannu data, gan gynnwys prosesau i ddiogelu data personol.

F15. Sicrhau bod trefniadau effeithiol yn eu lle ac yn gweithredu'n effeithiol wrth rannu data â chyrff eraill.

F16. Mynd ati'n rheolaidd i adolygu ac archwilio ansawdd a chywirdeb y data a ddefnyddir wrth wneud penderfyniadau a monitro perfformiad.

Beth sydd yn ei le i gefnogi hyn

- Canllawiau Rheoli Diogelu Data Cyffredinol
- Arweiniad Rhyddid Gwybodaeth
- Strategaeth Rheoli Gwybodaeth a'r Cynllun Gweithredu
- Defnydd Derbyniol o Gyfleusterau TGCh
- Polisi a Chanllawiau Diogelwch TGCh
- Safonau a Gweithdrefnau Trosglwyddo Data'n Ddiogel
- Polisi Diogelwch Gwybodaeth
- Polisi Rheoli Cofnodion
- Cynllun Cadw Cofnodion Corfforaethol

Rheolaeth gref dros arian cyhoeddus

F17. Sicrhau bod rheolaeth ariannol yn cefnogi cyflawniad hirdymor canlyniadau ynghyd â pherfformiad ariannol a gweithredol yn y tymor byr.

F18. Sicrhau bod rheolaeth ariannol tra datblygedig wedi'i hintegreiddio ar bob lefel gynllunio a rheolaeth, gan gynnwys rheoli risgiau a rheolaethau ariannol.

Beth sydd yn ei le i gefnogi hyn

- Monitro'r gyllideb
- Cydymffurfiad â chodau a chanllawiau CIPFA
- Datganiad Llywodraethu Blynyddol
- Adroddiadau Archwilio Allanol
- Fframwaith Rheoli Perfformiad
- Cofrestrau Risg a Rheoli
- Cynllun ariannol tymor canolig

Egwyddor G:

Gweithredu arferion da o ran tryloywder, adrodd, ac archwilio i sicrhau atebolrwydd effeithiol

Ystyr atebolrwydd yw sicrhau bod y rhai sy'n gwneud penderfyniadau ac yn darparu gwasanaethau yn atebol drostynt. Mae atebolrwydd effeithiol yn ymwneud nid yn unig ag adrodd ar y camau a gwblhawyd, ond mae hefyd yn sicrhau bod rhanddeiliaid yn gallu deall ac ymateb wrth i'r sefydliad gynllunio a chyflawni ei weithgareddau mewn modd tryloyw. Mae archwilio mewnol ac allanol ill dau yn cyfrannu at atebolrwydd effeithiol.

I gefnogi Egwyddor G, mae'r Cyngor yn ymrwymo i:

I gefnogi Egwyddor G, mae'r Cyngor yn ymrwymo i

G1. Ysgrifennu a chyfathrebu adroddiadau ar gyfer rhanddeiliaid cyhoeddus ac eraill mewn dull dealladwy sy'n briodol ar gyfer y gynulleidfa fwriadedig a sicrhau eu bod yn hawdd cael mynediad atynt a'u cwestiynu.

G2. Cyflawni cydbwysedd rhwng darparu digon o wybodaeth i fodloni galwadau o ran tryloywder a hybu craffu cyhoeddus gan sicrhau nad yw'n ormod i'w ddarparu ac i ddefnyddwyr ei deall.

Beth sydd yn ei le i gefnogi hyn

- Arweiniad ar baratoi adroddiadau
- Sgrinio adroddiadau pwyllgorau a phrosesau cymeradwyo
- Gwefan hygyrch
- Fframwaith Rheoli Perfformiad

Gweithredu arfer dda o ran adrodd

G3. O leiaf yn flynyddol, adrodd ar berfformiad, gwerth am arian a stiwardiaeth adnoddau .G4. Sicrhau bod gan berchnogion ac uwch reolwyr berchnogaeth dros y canlyniadau.

G5. Sicrhau trefniadau cadarn ar gyfer asesu'r graddau y mae'r egwyddorion a gynhwysir yn y Fframwaith wedi cael eu gweithredu, a chyhoeddi'r canlyniadau ar yr asesiad hwn gan gynnwys cynllun gweithredu ar gyfer gwella a thystiolaeth i arddangos llywodraethu da (datganiad llywodraethu blynyddol).

G6. Sicrhau bod y Fframwaith yn cael ei weithredu mewn perthynas â sefydliadau gwasanaeth sy'n cael eu rheoli ar y cyd neu eu rhannu fel y bo'n briodol.

G7. Sicrhau bod y wybodaeth o ran perfformiad sy'n cyd-fynd â'r datganiadau ariannol y'n cael ei pharatoi mewn modd cyson ac amserol a bod ydatganiadau'n caniatáu cymharu â sefydliadau tebyg eraill.

Beth sydd yn ei le i gefnogi hyn

- Fframwaith Rheoli Perfformiad
- Adrodd ar reoli mewnol
- Datganiad Llywodraethu Blynyddol a'r Cynllun Gweithredu
- Polisi Rheoli Risg
- Cofrestrau Risg a Rheoli
- Datganiad Cyfrifon Blynyddol
- Adroddiad Gwerth am Arian blynyddol y Pennaeth Archwilio
- Hunanasesiad Blynyddol

Sicrwydd ac atebolrwydd effeithiol

G8. Sicrhau y gweithredir ar yr argymhellion ar gyfer camau unioni a wneir drwy archwilio allanol.

G9. Sicrhau bod gwasanaeth archwilio mewnol effeithiol yn ei le gyda mynediad uniongyrchol i aelodau sy'n darparu sicrwydd o ran trefniadau llywodraethu ac y gweithredir ar argymhellion.

G10. Croesawu herio gan gymheiriaid, ynghyd ag adolygiadau ac arolygon gan gyrff rheoleiddio a gweithredu argymhellion.

G11. Cael sicrwydd o ran risgiau sy'n gysylltiedig â chyflenwi gwasanaethau drwy drydydd partïon a bod tystiolaeth o hyn yn y datganiad llywodraethu blynyddol.

G12. Sicrhau, wrth weithio mewn partneriaeth, bod trefniadau ar gyfer atebolrwydd yn glir a bod yr angen am atebolrwydd cyhoeddus ehangach wedi'i gydnabod a'i gyflawni.

Beth sydd yn ei le i gefnogi hyn

- Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio (Cyfansoddiad)
- Adroddiadau archwilio ac arolygu allanol
- Siarter Archwilio Mewnol
- Adroddiad Blynyddol y Pennaeth Archwilio Mewnol
- Hunanasesiad Archwilio Mewnol a chydymffurfiad â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus
- Sicrwydd Rheolaeth Fewnol y Prif Swyddog
- Datganiadau Llywodraethu Ysgolion
- Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Wrecsam a'r Cynllun Lles
- Trefniadau gweithio mewn partneriaeth ac ar y cyd

ADRAN 4: SUT MAE LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL YN CAEL EI ADOLYGU

1. 1Mae'n ofynnol i'r Arweinydd a'r Prif Weithredwr sicrhau y cynhelir adolygiad bob blwyddyn i fesur i ba raddau rydym wedi bodloni gofynion y Cod hwn.

2. Bydd canlyniadau'r adolygiad yn cael eu cynnwys yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol a gyhoeddir gyda'r Datganiad Cyfrifon Blynyddol.

3. Lle bo'r adolygiad yn datgelu bylchau neu wendidau posibl, cytunir ar gamau gweithredu i sicrhau llywodraethu effeithiol yn y dyfodol. Bydd y camau gweithredu a gytunir yn cael eu monitro i sicrhau eu gweithredu.

4. Bydd y Cod hwn yn cael ei ddiwygio, lle bo angen, o ganlyniad i'r adolygiad blynyddol, newidiadau mewn arferion gorau neu newidiadau statudol. Yn nhermau unrhyw fân ddiwygiadau o ran geiriad, penawdau a manylion 'beth sydd yn ei le' i gefnogi'r egwyddorion (Adran 3 uchod), gellir eu cymeradwyo gan Bennaeth y Gwasanaeth Gwella Perfformiad a Phartneriaethau (PIPS), ond bydd angen i'r Bwrdd Gweithredol gymeradwyo unrhyw newidiadau sylweddol i'r Cod a'r egwyddorion.

5. Bydd y cod hwn yn cael ei adnewyddu ddim hwyrach na 31 Mawrth 2027.

ATODIAD A: SAITH EGWYDDOR BYWYD CYHOEDDUS (EGWYDDORION NOLAN)

Mae'r rhain yn berthnasol i unrhyw un sy'n gweithio fel deiliad swydd gyhoeddus. Pwyllgor Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus, cyhoeddwyd 31 Mai 1995. Dyma'r safonau hynny:

1. Anhunanoldeb - Dylai'r rheiny sy'n dal swyddi cyhoeddus weithredu er budd y cyhoedd yn unig.
2. Uniondeb - Dylai'r rheiny sy'n dal swyddi cyhoeddus osgoi rhoi eu hunain dan orfodaeth i bobl neu sefydliadau a allai geisio eu dylanwadu'n amhriodol wrth iddynt gyflawni eu gwaith. Ni ddylent weithredu neu wneud penderfyniadau er mwyn sicrhau manteision ariannol neu fanteision materol eraill iddynt eu hunain, eu teuluoedd, na'u ffrindiau. Rhaid iddynt ddatgan a datrys unrhyw fuddiannau a chysylltiadau.
3. Gwrthrychedd - Rhaid i rai sy'n dal swyddi cyhoeddus weithredu a gwneud penderfyniadau mewn modd diduedd, teg ac yn ôl haeddiant, gan ddefnyddio'r dystiolaeth orau a heb wahaniaethu neu ragfarn.
4. Atebolrwydd - Mae'r rheiny sy'n dal swyddi cyhoeddus yn atebol i'r cyhoedd am eu penderfyniadau a'r camau y maent yn eu cymryd a rhaid iddynt gynnig eu hunain i ba archwiliadau bynnag sy'n angenrheidiol i sicrhau hyn.
5. Bod yn Agored - Dylai'r rheiny sy'n dal swyddi cyhoeddus weithredu a gwneud penderfyniadau mewn modd agored a thryloyw. Ni ddylid cuddio gwybodaeth rhag y cyhoedd onid oes rhesymau clir a chyfreithlon dros wneud hynny.
6. Gonestrwydd - Dylai'r rheiny sy'n dal swyddi cyhoeddus fod yn onest.
7. Arweinyddiaeth - Dylai'r rheiny sy'n dal swyddi cyhoeddus arddangos yr egwyddorion hyn yn eu hymddygiad eu hunain. Dylent fynd ati'n weithredol i hybu'r egwyddorion a'u cefnogi'n gadarn a bod yn barod i herio ymddygiad gwael yn lle bynnag y bydd yn ymddangos.

Mae hyn yn cynnwys pobl sy'n cael eu hethol neu eu penodi i swyddi cyhoeddus, yn genedlaethol ac yn lleol, a phawb sy'n cael eu penodi i weithio o fewn:

- Y Gwasanaeth Sifil
- Llywodraeth Leol
- Yr Heddlu
- Y Llysoedd a'r Gwasanaethau Prawf
- Cyrff Cyhoeddus Anadrannol
- Iechyd, Addysg, Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal.

Am ragor o fanylion, ewch i: 7 Egwyddor Bywyd Cyhoeddus - GOV.UK